

## WILLIAMS, THOMAS ('Brynfab'; 1848 - 1927), llenor ac amaethwr

**Enw:** Thomas Williams  
**Ffugenw:** Brynfab  
**Dyddiad geni:** 1848  
**Dyddiad marw:** 1927  
**Rhiant:** Gwenllian Williams  
**Rhiant:** Thomas Williams  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** llenor ac amaethwr  
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Natur ac Amaethyddiaeth  
**Awdur:** Thomas Harris Lewis

Ganwyd 8 Medi 1848 yn Fforch Aman, ffermdy yng Nghwmaman, Aberdâr, mab Thomas a Gwenllian Williams. Symudodd y teulu i'r Fforch, Treorci, pan oedd y mab yn ifanc iawn, ac yno y derbyniodd yr ychydig addysg a gafodd. Pan oedd yn 25 mlwydd oed ymsefydlodd yn yr Hendre, plwyf Eglwysilan, a bu'n amaethwr yno am dros 50 mlynedd. Wedi ymdeol aeth i fyw i'r Hendre Wen, S. Athan. Bu farw 18 Ionawr 1927 a chladdwyd ef ym mynwent eglwys y plwyf, Eglwysilan. Am gyfnod maith bu 'Brynfab' yn golygu'r golofn farddol yn *Y Darian* ac yn ysgrifennu'n helaeth i'r papurau ar faterion llenyddol. Yr oedd yn eisteddfodwr pybyr ac yn fardd adnabyddus. Ceir yn ei 'nofel' *Pan oedd Rhondda'n bur*, 1912, ddarlun gwerthfawr o hen fywyd Cwm Rhondda. Fel cydnabyddiaeth o'i wasanaeth i fywyd llenyddol Cymru, rhoddwyd iddo bensiwn sifil y Llywodraeth. Efe ydoedd un o arweinwyr 'Clic y Bont,' sef y clwb awen a chân ym Mhontypridd y perthynai '**Carnelian**,' '**Glanffrw**,' 'Dewi Alaw' ac eraill iddo. Cymeriad gwreiddiol iawn oedd 'Brynfab' ac yn batrwm o'r hen ddiwylliant gwerinol Cymraeg.

### Awdur

**Thomas Harris Lewis**, (1972)

### Ffynonellau

*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1945, 50-70

*Y Darian*, Ionawr 1927

*The Pontypridd Observer*, Ionawr 1927

ynghyd â phapurau'r teulu

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Thomas Williams**

### Gweithiau

Thomas Williams, *Pryddest goffadwriaethol i'r diweddar Rosser Beynon, (Asaph Glan Taf) a'r Parch. D. T. Williams (Tydfylyn)... buddugol yn Eisteddfod Cymrodorion dirwestol Merthyr, Nadolig, 1876* (Merthyr Tydfil 1877)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 39151978

Wikidata: **Q13131864**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION

